CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
1 Mawrth 2017, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, S Hughes, N Jones, E Williams, R Edwards, A Mummery (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng G Roberts, A Evans, R Davies, J Evans (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Edwards (eitem 5.2)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 1 Chwefror 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir Cyng S Hughes yn cynnig a Cyng N Jones un eilio (un cywiriad 6.2 prydles yn lle brydlon)
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Bydd y Clerc yn cysylltu a Dafydd Rowlands, Cyngor Sir
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - Mae y wybodaeth am gyflymder traffig trwy'r pentref wedi cael ei anfon ymlaen at Gan Bwyll - bydd y Clerc yn cysylltu a Gan Bwyll
4.3	**Tai Elusendai Penmynydd** - Cynigodd y Cadeirydd cynrychioli y Cyngor ar Pwyllgor y Tai Elusendai
4.4	**Maes chwarae** - Mae'r Clerc wedi derbyn prisiau ar gyfer torri gwair y maes chwarae: Cymunedau yn Gyntaf £1167.03 a Rhys Williams £560.00. Cytunwyd i dderbyn pris Rhys Williams. Hefyd, bydd y Clerc yn trefnu cael pris arall am gwneud y giat a'r ffens.
4.5	**Hysbysffwrdd Star** - Mae'r Clerc yn disgwyl pris gan Sion Jones. Hefyd mae angen gwaith ar hysbysffwrdd Penmynydd (cefn newydd)
4.6	**Mynwent Gilead** - Cynigodd Cyng M Jones trafod y mater gyda'r swyddogion
4.7	**Mast Penmynydd** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	42C257 Cais llawn i newid iard amaethyddol yn ardal storio carafannau yn Rhyd y Delyn Fawr, Rhoscefnhir (cynlluniau diwygiedig) - dim sylwadau
5.2	41C103T Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Llwyn Hudol, Penmynydd - dim sylwadau (gadawodd Cyng R Edwards yr ystafell)
	Adran Eiddo
5.3	Yr Hen Ysgol - Penmynydd. Darllenwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn dweud bydd yr Urdd yn ildio'r brydles ar 11 Ebrill 2017. Mae'r Cyngor Sir yn cynnig prydles o'r eiddo i'r Cyngor Cymuned. Mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi cysylttu a'r Urdd a wedi derbyn costau rhedeg yr eiddo. Cytunwyd i'r Cyngor Cymuned cymeryd cyfrifoldeb am yr eiddo am cyfnod o chwe mis. Yn y cyfamser, cytunwyd i ofyn i drigolion lleol os ydynt gyda diddordeb mewn ffurfio pwyllgor i brydlesu'r eiddo. Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda'r Cyngor Sir i symud y mater ymlaen.
	Llofnod **Cadeirydd** **05.04.17**

6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Cymunedau yn Gyntaf - gweler 4.4
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Yr Urdd (Rhent) £120.00
7.2	Cyngor Ynys Mon (gosod lamp) £350.00
7.3	Wales Audit £192.00
7.4	Aelodaeth Unllais Cymru £66.00
7.5	G Owen, Clerc - costau £37.74
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Neuadd Penmynydd (gweler 5.3)
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
9.1	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **05.04.17**